Pobl ac anifeiliaid eraill

Bu'r berthynas rhwng pobl ac anifeiliaid eraill – sut rydyn ni'n meddwl amdanynt a sut rydyn ni'n eu trin – yn destun dadlau ers canrifoedd. Mae sail academaidd ddifrifol i'r ddadl hon yn ogystal ag wyneb cyhoeddus, ac mae barn crefyddau, athronwyr, gwyddonwyr a chymdeithasegwyr y byd wedi dylanwadu'n helaeth arni. Bu dylanwad cyrff felly'n allweddol i ddatblygu deddfwriaeth a `chodau ymddygiad' moesegol i amddiffyn pobl ac anifeiliaid a diffinio sut y dylem ymddwyn tuag atynt.

Byddai bron pawb yn cytuno bellach na ddylid trin anifeiliaid yn greulon. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn wir. Mewn gwirionedd, cyn y 18fed ganrif, dadleuwyd na allai anifeiliaid ddioddef gan nad oedd enaid ganddynt – roedd pobl yn credu bod eneidiau ac o ganlyniad dioddefaint yn unigryw i bobl.

Cyflwynwyd y farn hon gan y gwyddonydd ac athronydd o Ffrainc, **René Descartes** (1596-1650). Ysgrifennodd am anifeiliaid fel petaent yn beiriannau dideimlad, cysyniad a ddylanwadodd ar feddyliau am fwy na dwy ganrif. (Mae'n ddadleuol a oedd Descartes yn credu'n wirioneddol na allai anifeiliaid ddioddef, ond roedd yn bendant yn amau pethau na allai `rheswm yn unig' eu pennu).

Yn y 18eg ganrif dechreuwyd herio'r farn hon, a hynny'n amlycaf yn ysgrifeniadau athronwyr dylanwadol fel **Jeremy Bentham.** Dechreuodd pobl ymboeni'n fwy am allu anifeiliaid i ddioddef.

Roedd pryder am bobl dan ormes hefyd yn cynyddu, ac arweiniodd hyn at bwysau am ddiwygiadau cymdeithasol yn y 19eg ganrif a oedd yn cwmpasu pobl ac anifeiliaid. Yr **RSPCA** oedd y gymdeithas lles anifeiliaid gyntaf yn y byd i gael ei sefydlu, ym **1824.**

Yn yr 20fed ganrif, parhaodd meddwl athronyddol i ddatblygu am natur dioddefaint anifeiliaid a'r berthynas rhwng pobl ac anifeiliaid, a dechreuodd y materion hyn gael eu hastudio hefyd gan seicolegwyr ac ym maes y gwyddorau cymdeithasol. Yn ogystal, dysgwyd llawer mwy am anifeiliaid, eu galluoedd, eu hymddygiad a'u gallu i ddioddef, a daeth lles anifeiliaid i'r amlwg fel gwyddor yn ei rhinwedd ei hun. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at ddatblygu codau moesol, safonau moesegol a deddfwriaeth newydd.

Mae sbectrwm newydd o farn yng nghymdeithas y gorllewin am statws anifeiliaid a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi iddynt yn y llu o wahanol gyd-destunau y mae pobl yn rhyngweithio â hwy ynddynt neu'n eu defnyddio ynddynt. Er enghraifft, o ran bwyd a ffermio, adloniant, ymchwil gwyddonol, bywyd gwyllt a chwmnïaeth.

Mae nifer o gysyniadau athronyddol yn gysylltiedig ag anifeiliaid, ond y ddau gysyniad mwyaf cyffredinol yw rhai **hawliau anifeiliaid** a **lles anifeiliaid.**

Mae un athroniaeth hawliau anifeiliaid yn rhoi'r un math o hawliau i anifeiliaid â phobl, gan gynnwys yr hawl i fyw bywyd yn rhydd o gamdriniaeth ac ymelwa gan bobl. O fynd â hi i'r eithaf, byddai hyn yn eithrio eu cadw fel anifeiliaid anwes.

Mae un athroniaeth lles anifeiliaid yn dod i'r casgliad bod rhaid parchu anifeiliaid a bod rhaid amddiffyn eu lles, ond nid yw'n rhoi hawliau iddynt yn yr un modd ag y caiff pobl hawliau. Mae'n dadlau bod pobl yn gyfrifol am anifeiliaid a bod hyn yn cynnwys peidio ag achosi dioddefaint dianghenraid.

Gwybodaeth bellach:

***Animals and Human Society: Changing perspectives*, golygwyd gan Aubrey Manning a James Serpell (1994), Routledge, Llundain ac Efrog Newydd. ISBN 0-415-09155-1**